




## Tasg 1

### Actio

1. Mewn grwpiau o 3, actiwch y sgript yma.


#### Carwyn yn y caffi

CCC:	Prynhawn da.
CCC:	Beth wyt ti eisiau, Aled?
Aled:	Dw i ddim yn siŵr. Gawn ni weld ... Sosejis ... pizzas ... pei ... pysgod ... cawl ... salad ... Mmm?
CCC:	Dw i eisiau'r sosejis dw i'n meddwl – gyda ... pys a ... tatws.
Aled:	A dw i eisiau'r salad cyw iâr, dw i'n meddwl.  <i>Maen nhw'n chwilio am y weinyddes.</i>
CCC:	Ble mae hi?
Aled:	Dw i ddim yn gwybod.
CCC:	Esgusodwch fi ...
CCC:	Helo ... gawn ni archebu os gwelwch yn dda?  Mae'r weinyddes yn dod.
Gweinyddes:	Alright! Alright!
Gweinyddes:	Ie?
CCC:	Ga i sosejis ... pys a ... tatws ... os gwelwch yn dda ... ... a moron.
Gweinyddes:	Moron?!?!?! Hy!
Aled:	Ga i ... salad cyw iâr ... os gwelwch yn dda?
Aled:	lawn?
CCC:	Diolch.  <i>Mae'r weinyddes yn nôl y bwyd.</i> ***
CCC:	Beth ydy hwn? ... Beth ydy hwn?
Gweinyddes:	Sausages, peas ... tattoos...?
CCC:	Beth?!?!?
Gweinyddes:	Sausages, peas ... tattoos...?
CCC:	Beth am y moron?
Aled:	Beth ydy hwn?
Gweinyddes:	Salad ... hufen iâ.
Aled:	Salad a ... hufen iâ? Na, na - Salad a ... cyw iâr – dim hufen iâ.
CCC:	Bobl bach?!?!? ... O, wel!



	<p><i>Maen nhw'n bwyta.</i> ***</p> <p>Gweinyddes: Pudding? CCC: Wyt ti eisiau pwddin, Aled? Aled: O, ydw, os gwelwch yn dda. Beth amdanat ti? CCC: Dw i eisiau pwddin hefyd. Aled: Dw i eisiau ... cacen siocled a ... mefus. Gweinyddes: Mavis? Na – Manon. Aled: Cacen siocled a ... mefus. Gweinyddes: Mavis? Na – Manon. Aled: O, iawn ... reit ... wel ...beth amdanat ti, Carwyn? CCC: Sponge – os gwelwch yn dda. ***</p> <p><i>Mae'r weinyddes yn nôl y pwddinau.</i></p> <p>Aled: Beth ydy hwn? Gweinyddes: Chocolate. Aled: Na, na, dw i eisiau <b>cacen</b> siocled a mefus. Na – Manon.</p> <p>CCC: A beth ydy hwn? Gweinyddes: Sponge. CCC: Dw i ddim eisiau golchi'r car. Dw i eisiau <b>bwyta</b> sponge. Aled: Mawredd mawr! CCC: Dim ots.</p> <p>Gweinyddes: Coffee? CCC: Coffi?!?!?! Dim Diolch! Y <b>bil</b> os gwelwch yn dda. Gweinyddes: O, Bill! Hello Bill – Manon. CCC: Na, na – DW ... I ... EISIAU'R ... BIL ... Aled: ... os gwelwch yn dda.</p> <p>Gweinyddes: The bill, Bill. CCC: FAINT?!?!?!?</p>
--	--

Geirfa	
chwilio	to find
gweinyddes	waitress
nôl	to fetch



2. Mae'r weinyddes yn cael problemau gyda'r iaith Gymraeg. Helpwch hi. Beth ydy'r geiriau Cymraeg am ...?

Good afternoon.

Good evening.

Welcome.

May I help?

What do you want?

What would you like to eat?

Is the food alright?


Do you want some dessert?

Do you want some coffee?

Here's the bill.

3. Mae'r weinyddes yn mynd ar gwrs Cymraeg a chi ydy'r tiwtor.  
a. Pa eiriau bwyd ydych chi'n mynd i ddysgu iddi hi? Rhestrwch nhw yma.

Geirfa	
rhestrwch	list



b. Nawr, rydych chi eisiau helpu'r weinyddes i siarad Cymraeg.

Yn eich llyfrau, ysgrifennwch 3 deialog fach i helpu'r weinyddes i ddysgu'r patrymau a'r geiriau.

e.e.

Gweinyddes:	Sut ydych chi heno?
Cwsmer:	Dw i'n dda iawn. A chi?
Gweinyddes:	Da iawn, diolch. Ydych chi eisiau gweld y fwydlen?
Cwsmer:	O, ydw, os gwelwch yn dda.
Gweinyddes:	Dyma chi.

Deialog 1: Croesawu person i'r caffi

Deialog 2: Rhoi'r fwydlen i'r person a gofyn beth mae e / o / hi eisiau

Deialog 3: Cynnig pwddin

Geirfa	
croesawu	to welcome
bwydlen	menu
y fwydlen	the menu
cynnig	to offer

